



Gofalwyr ifanc

Polisi ar gyfer cefnogi gofalwyr ifanc a dysgwyr sydd wedi bod mewn gofal



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Goleg Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r 'Polisi Gofalwyr Ifanc a Phobl Ifanc â Phrofiad o Ofal'.

Ebrill 2022

Gofalwyr ifanc a dysgwyr sydd wedi bod mewn gofal



Rydyn ni am i'n **holl** fyfyrwyr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro:

- gael eu trin yn deg a gyda pharch,



- teimlo eu bod nhw'n gallu gwneud eu gorau a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r coleg,



- ennill y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw mewn lle diogel sy'n bodloni eu hanghenion.



Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i ddysgu. Er gwaethaf beth sydd yn digwydd yn eu cartref.



Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc sy'n gofalu am rywun gyda'u dysgu.



Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr sydd wedi bod mewn gofal neu sydd mewn gofal ar hyn o bryd i'w helpu i elwa cymaint â phosibl ar eu hamser yn y coleg.



Mae'r polisi hwn ar gyfer:

- Pob dysgwr
- Yr holl staff
- Unrhyw un sy'n gwneud unrhyw waith i'r coleg
- Pob ymwelydd



Bydd y coleg yn:



- Rhoi cynlluniau ar waith i helpu pobl i ddilyn y rheolau hyn,



- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud i gefnogi dysgwyr,



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod y rheolau hyn a'r hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i'w dilyn,



- Rhoi unrhyw beth sydd ei angen ar waith er mwyn i'r cynlluniau hyn gael eu dilyn,



- Cofnodi a gwirio gwybodaeth am y polisi hwn a sut rydyn ni'n delio â phethau yn y polisi hwn. Gwneud yn siŵr ein bod ni'n dilyn y gyfraith a'r canllawiau,




- Gwirio'r hyn rydyn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr ei fod e'n gweithio ac yn dilyn y gyfraith,



- Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg.

Deddfau a chanllawiau pwysig mae'n rhaid i ni feddwl amdany'n nhw:



- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Erthyglau 28 a 29
- Deddf Plant 1989
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Meini Prawf ac Asesu Cymhwysedd) 2014
- Rheoliadau Gofalwyr Ifanc 2015
- Canllaw Statudol Gofal a Chymorth 2014